**Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
—
**Independent Remuneration Board of the Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Taliadau@senedd.cymru
bwrddtaliadau.cymru
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Remuneration@senedd.cymru
remunerationboard.wales
0300 200 6565

Dyddiad | Date: 28 Mawrth 2025

**Pwnc: Adolygiad Blynyddol o’r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau ar gyfer 2025-26**

Cynhaliodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ymarfer ymgynghori ar ei Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau ar gyfer 2025-26, yn unol â’i ddyletswydd o dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Bwrdd rhwng 8 Ionawr 2025 a 19 Chwefror 2025. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo drwy ddatganiad i’r wasg, negeseuon ar blatfform X a gwefan y Senedd, a chafodd neges uniongyrchol ei hanfon at randdeiliaid y Bwrdd. Cafodd y Bwrdd 22 o ymatebion, a restrir isod. Ystyriwyd yr ymatebion hyn ar 13 Mawrth 2025 a chytunodd y Bwrdd ar ddiwygiadau i’r Penderfyniad.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn ddefnyddiol o ran llywio penderfyniadau'r Bwrdd ac rydym yn gwerthfawrogi'r amser a roddwyd a'r ymdrech a wnaed gan y rhai a ymatebodd.

Rwy’n falch bod llawer o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn cefnogi cynigion y Bwrdd. Rwyf wedi nodi bwriad y Bwrdd o ran pob cynnig yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn benodol, rwyf am sicrhau dealltwriaeth o ran y cyd-destun y mae’r Bwrdd yn cynnig cynyddu cyflogau Aelodau ynddo. Rydym wedi nodi’r pryderon a godwyd yn sgil y cynnig hwn mewn ymatebion gan rai aelodau o’r cyhoedd ac rydym yn cydnabod y pwysau parhaus o ran yr economi ehangach a gwasanaethau cyhoeddus.

Un o amcanion statudol y Bwrdd yw sicrhau bod Aelodau’n cael lefel o dâl ’…sy’n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd’ eu gwaith ac, ar ben hynny, mae’r Bwrdd yn ceisio gwneud penderfyniadau sy’n briodol o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach y wlad.

Mae cyflogau Aelodau o’r Senedd wedi cael eu rhewi ddwywaith yn ystod y Chweched Senedd, ac yn dilyn hynny, cyflwynwyd cap o 3% ar godiadau cyflog, yn ystod blwyddyn pan gynyddodd cyflogau yng Nghymru llawer yn fwy na hyn. O ganlyniad i hyn, dros amser, nid yw cyflogau Aelodau wedi parhau’n gyson â’r codiadau cyflog ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol. Ers cyflwyno’r cap yn 2021-22, y cynnydd cronnol i gyflogau’r Aelodau oedd 9.7%, tra bod mynegai’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) wedi cynyddu 20.7% a chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) wedi cynyddu 23.7%.

Mae mynegai Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) Cymru yn rhoi'r darlun mwyaf cywir o newidiadau i gyflogau yng Nghymru. Am y rhesymau hyn, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar gynnydd o 6% yng nghyflogau Aelodau ar gyfer 2025-26 yn unol ag ASHE Cymru.

Mae rhai o’r cynigion yn deillio o waith y Bwrdd ar ei adolygiadau thematig, sy’n cynnwys cymorth staffio; tâl a chymorth personol Aelodau; lwfans cymorth i bleidiau gwleidyddol; symleiddio a ffyrdd o weithio. Rwy’n ddiolchgar i’r holl Aelodau o’r Senedd a Staff Cymorth hynny a gymerodd ran mewn sesiynau ymgysylltu i lywio ein gwaith yn y meysydd hyn, yn enwedig y rhai a roddodd gryn dipyn o’u hamser i lywio’r adolygiad staffio. Rwy’n parhau i groesawu adborth ar y materion hyn er mwyn sicrhau bod y ffyrdd y caiff Aelodau eu cefnogi yn addas ar gyfer yr heriau y maent yn eu hwynebu.

Hoffwn hefyd estyn fy niolch i’r aelodau hynny o’r Bwrdd y mae eu cyfnod yn y swydd wedi dod i ben neu’n dod i ben eleni, am y cyfraniadau rhagorol gan y diweddar Mike Redhouse, y Fonesig Jane Roberts a’r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Hanson o’r Fflint (Syr David Hanson gynt). Rwy’n ddiolchgar iawn iddynt am eu diwydrwydd, eu harbenigedd a’u gwaith caled wrth fynd i’r afael â’r pynciau cymhleth, sy’n aml yn ddadleuol, sydd wedi codi yn ystod ein gwaith.

Yn gywir,



Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

## Atodiad: Penderfyniadau Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd: Adolygiad Blynyddol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2025-26

### Cynnig 1

***Cynyddu'r swm y caiff Aelodau ei hawlio am gostau busnes, oni nodir yn wahanol, yn ôl cyfradd CPI mis Ionawr 2025.***

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn.

Ymatebodd Jane Dodds AS, PCS Plaid Cymru a grŵp Plaid Cymru i ddweud eu bod yn cytuno â'r cynnig. Gofynnodd grŵp Plaid Cymru i'r Bwrdd:

> *'When calculating costs, consideration should be given to the vagaries of the Business Rate regime its local factors and its sensitivity to any changes the government may introduce.'*

Bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu effaith costau ardrethi busnes ar gyllidebau Aelodau.

Cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r holl gostau busnes 3%, sef y gyfradd CPI ar gyfer mis Ionawr 2025 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Canlyniad**

Mae'r swm y caiff Aelodau ei hawlio ar gyfer costau busnes i'w weld yn Atodiad B.

### Cynnig 2

***Gwneud Penderfyniad eithriadol i ddileu paragraff 3.2.2 o'r Penderfyniad (gan ddileu'r coler a'r cap o 3% ar fynegeio blynyddol). Bydd cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn cynyddu yn ôl ffigur ASHE Cymru o 6% yn 2025-26, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.***

#### Crynodeb o'r ymatebion

Cafodd y Bwrdd 12 o ymatebion gan aelodau unigol o'r cyhoedd a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau na ddylai Aelodau o'r Senedd gael

codiad cyflog uwchlaw chwyddiant ac roedd rhai yn dweud na ddylai cyflogau Aelodau gael eu cynyddu o gwbl. Rhoddwyd nifer o resymau; dywedodd rhai y dylai codiadau cyflog fod yn gysylltiedig â chynnydd o ran perfformiad gwasanaethau cyhoeddus, cyfeiriodd eraill at yr argyfwng costau byw parhaus ac amgylchiadau economaidd ac ariannol ehangach Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Cyfeiriodd eraill at roi'r gorau i'r lwfans tanwydd gaeaf, yr amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r GIG, amhoblogrwydd y terfyn cyflymder diofyn o 20mya a chost y gwaith o ehangu'r Senedd neu wrthwynebiad i hynny.

Nododd y Bwrdd hefyd adborth ehangach gan gynnwys trafodaethau ar blatfform X, lle gwelwyd amrywiaeth o bobl yn cefnogi lefel tâl yr Aelodau, rhai yn pryderu am godiadau cyflog uwchlaw chwyddiant, ac eraill yn cydnabod heriau'r rôl a bod angen cynnig cyflog priodol amdani.

Ymatebodd Jane Dodds AS a Grŵp Plaid Cymru i'r cynnig hwn gan ddweud eu bod yn ei gefnogi. Cytunodd Grŵp Plaid Cymru mai mynegai ASHE Cymru yw'r un mwyaf priodol o hyd ar gyfer cynyddu cyflogau a dywedodd:

> *'we firmly believe that the decision on removing the cap on salaries and any subsequent changes in salary should be one for the independent Remuneration Board'.*

Ystyriodd y Bwrdd yr ymatebion a nododd gryfder y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y cynnig hwn.

Mae'r Bwrdd wedi pwyso a mesur y pryderon hyn yn erbyn effaith cap ar gyflogau o 3% a gyflwynwyd yn ystod y Chweched Senedd a'r ddau gyfnod o rewi cyflogau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod pan oedd cyfyngiadau symud Covid-19 yn effeithio ar yr economi. Mae'r mesurau hanesyddol hyn wedi golygu nad yw cyflogau Aelodau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant na chyflogau ehangach ar draws gweithlu Cymru yn ystod y Chweched Senedd. Mae'r cynnig hwn hefyd yn debyg i ddyfarniadau cyflog cyfartalog yn y sector cyhoeddus, a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Un o egwyddorion y Bwrdd yw bod rhaid i'w benderfyniadau 'fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru'. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn bwysig i gyflogau Aelodau fod yn gyson â'r farchnad

swyddi ehangach yng Nghymru ac mae wedi dewis defnyddio mynegai ASHE Cymru[1] gan ei fod yn cynrychioli'r newidiadau mewn enillion ledled Cymru.

At hynny, byddai cadw'r cap yn groes i amcan statudol y Bwrdd o roi i Aelodau lefel o dâl 'sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd' eu gwaith fel Aelodau. Byddai cadw'r cap yn arwain at sefyllfa lle na fyddai eu cyflogau'n adlewyrchu'r rôl yn deg o ystyried effaith twf mewn enillion yn yr economi ehangach ac effaith pwysau chwyddiant.

Felly, mae'r Bwrdd wedi penderfynu cyhoeddi penderfyniad eithriadol i gynyddu cyflogau Aelodau yn ôl mynegai ASHE Cymru o 6%.

Mae tabl yn dangos cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn Atodiad B.

**Canlyniad**

Bydd cyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn cynyddu yn ôl ffigur ASHE Cymru o 6% i £76,380 a bydd y cap a choler ar godiadau blynyddol i gyflogau Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi ychwanegol yn cael eu dileu.

## Cynnig 3

***Cynyddu cyflogau staff Aelodau a staff grŵp yn 2025/26 yn ôl ffigur ASHE Cymru o 6%, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf a chynyddu lwfans gwariant staffio'r Aelodau i £138,438.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Roedd Jane Dodds AS yn cytuno â'r cynnig ar y sail y dylai cyflogau gyfateb i rolau tebyg mewn sectorau eraill. Roedd cangen PCS Plaid Cymru yn cefnogi'r cynigion gan ddweud y dylai'r codiad cyflog adlewyrchu chwyddiant.

Roedd undeb Unite yn croesawu'r cynnig a'r ffaith mai dyma'r ail flwyddyn i dâl staff cymorth gyd-fynd â sectorau eraill yn dilyn blynyddoedd lawer o godiadau cyflog llawer is nag ASHE. Dywedodd:

---

[1] Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2024 | LLYW.CYMRU

*'Members remain concerned that the previous cap has left their pay behind that of comparable roles in the public, private and third sectors.'*

Roedd grŵp Plaid Cymru yn croesawu'r cynnig gan ddweud bod angen y lwfans uwch i gynnig cyflogau cystadleuol i ddenu'r unigolion mwyaf cymwys i weithio i Aelodau. Galwodd am feincnodi cyflogau a graddfeydd yn erbyn rolau cyfatebol, ac ysgrifennodd:

*'We therefore look forward to the next phase of the Remuneration Board's Pay and Grading Review as we look ahead to the 7th Senedd, so that we can hopefully attract the brightest, most qualified individuals to support Members in fulfilling their roles on behalf of the people they serve.'*

**Canlyniad**

Caiff cyflogau staff yr Aelodau a staff y grwpiau eu cynyddu yn 2025/26 yn ôl ffigur ASHE Cymru o 6%, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf (gweler y tabl yn Atodiad B), a bydd lwfans gwariant staffio Aelodau yn cynyddu i £138,438.

## Cynnig 4

***Bydd y Bwrdd yn ystyried a oes angen cymorth ychwanegol ar Aelodau drwy'r Penderfyniad i gefnogi gweithrediad y fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd i Aelodau, yn enwedig wrth drosglwyddo'r staff presennol i'r fframwaith newydd. Er bod trafodaethau pellach yn yr arfaeth gydag Aelodau, undebau llafur a Chomisiwn y Senedd, byddai'r Bwrdd yn croesawu safbwyntiau ar yr ystod o gymorth mae Aelodau'n credu y gallai fod ei angen arnynt mewn perthynas â'r newid hwn.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Amlinellodd y Prif Weithredwr fod Comisiwn y Senedd eisoes wedi ysgrifennu at y Bwrdd i nodi'r cymorth i'r Aelodau y mae'r Comisiwn yn bwriadu ei ddarparu yn ystod y broses o roi'r fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd ar waith.

Dywedodd grŵp Plaid Cymru y bydd angen cymorth sylweddol ar Aelodau i weithredu'r broses ar yr un pryd ag y gallai fod newid i'w hanghenion busnes hefyd. Galwodd ar y

Bwrdd i amlinellu sut y bydd y broses hon yn caniatáu ar gyfer yr eglurder a'r sicrwydd sydd eu hangen ar staff, wrth hefyd ddarparu’r hyblygrwydd sydd ei angen ar Aelodau y gallai fod angen i’w hanghenion busnes addasu.

Ymatebodd cangen PCS Plaid Cymru i ddweud na ddylai'r ymarfer cyflogau a graddfeydd arwain mewn unrhyw ffordd at gyflog is i staff. Galwodd hefyd ar y Bwrdd i ystyried creu system adnoddau dynol briodol ar gyfer staff cymorth.

Awgrymodd Jane Dodds AS y gallai cymorth ychwanegol i Aelodau gynnwys cynnig sesiynau cyngor un i un er mwyn sicrhau proses bontio esmwyth.

Dywedodd undeb Unite: *‘Unite members seek to ensure that no member of staff loses out because of the changes. Members are clear that the changes will require additional funding.’*

Mae’r Bwrdd wedi ystyried yr adborth gan randdeiliaid a bydd yn ymgynghori ymhellach ar y cynigion o ran cymorth drwy’r ymgynghoriad ar Ran Dau o’r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, a gyhoeddir erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

**Canlyniad**

Bydd y Bwrdd yn ymgynghori ymhellach ar y cynigion o ran cymorth drwy’r ymgynghoriad ar Ran Dau o’r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Cynnig 5

***Symleiddio darpariaethau’r hawliau dileu swydd fel y’u nodir yn adran 7.13 o’r Penderfyniad a darparu hawlogaeth dileu swydd statudol wedi’i huwchraddio 100% i’r holl staff cymorth cymwys, ni waeth beth fo’r amseriad neu’r amgylchiadau o ran sut y mae’r Aelod yn peidio â bod yn Aelod o’r Senedd.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Roedd Mick Antoniw AS yn cefnogi’r cynnig, ac roedd grŵp Llafur Cymru o’i blaid hefyd, gan nodi y bydd yn darparu mwy o gysondeb, sicrwydd a diogelwch i'r staff dan sylw. Roedd undeb Unite hefyd yn cefnogi'r cynnig ac yn annog y Bwrdd i ystyried natur unigryw y rolau dan sylw ac i ystyried ‘talgrynnu’ pan fydd aelod o staff wedi gweithio am fwy na chwe mis y flwyddyn.

Galwodd cangen PCS Plaid Cymru am i'r Bwrdd ddarparu mwy o gefnogaeth. Ysgrifennodd:

> *'the majority felt the change does not go far enough to ensure that MSS and group staff redundancy entitlement reflects the job risk – particularly when compared with that available to support staff in the Scottish Parliament, and also to Members of the Senedd'.*

Galwodd grŵp Plaid Cymru hefyd ar y Bwrdd i fynd ymhellach a gwerthuso'r pecyn diswyddo staff yn fwy cyffredinol, gan gynnwys a yw'r ddarpariaeth yn ddigonol ar gyfer staff a fydd yn chwilio am waith arall. Awgrymodd y dylai'r Bwrdd ystyried pa mor hir y mae'n ei gymryd i staff ddod o hyd i gyflogaeth briodol ar ôl gadael eu rolau.

Nododd y Prif Weithredwr fod y Bwrdd wedi ystyried diswyddo staff cymorth yn flaenorol cyn y Pumed Senedd pan gytunwyd bod angen lefel uwch o gefnogaeth ar staff a oedd yn gweithio i Aelod a gafodd ei drechu mewn etholiad. Dywedodd hefyd:

> *'…mae staff cymorth yn aml yn gallu dod o hyd i swyddi newydd gydag Aelodau sy'n dod i mewn os yw eu cyflogwr presennol yn peidio â bod yn Aelod. Yn dilyn etholiad 2026 bydd llawer mwy o rolau staff cymorth ar gael, oherwydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau.'*

Ystyriodd y Bwrdd yr adborth a'i gyfrifoldeb i gydbwyso ei ddyletswydd i sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr, ei amcanion ar gyfer symleiddio a'r angen i gefnogi staff sydd mewn perygl o golli eu swyddi ar ôl etholiad.

Mae'r Bwrdd wedi penderfynu bod darpariaethau'r cynigion o ran yr hawlogaeth dileu swyddi yn deg i staff cymorth ac yn ddigonol i'w galluogi i baratoi ar gyfer y posibilrwydd y byddant yn cael eu diswyddo yn dilyn etholiad.

### Canlyniad

Bydd y darpariaethau dileu swydd yn cael eu symleiddio i ddarparu hawlogaeth dileu swydd statudol, wedi'i huwchraddio 100% i'r holl staff cymorth cymwys, ni waeth beth fo'r amseriad neu'r amgylchiadau o ran sut y mae'r Aelod sy'n eu cyflogi yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd.

## Cynnig 6

***Cynnwys cyfeiriadau at 'lety â gwasanaeth' ym Mhennod 4 o'r Penderfyniad i'w gwneud yn glir ei fod yn opsiwn ar gyfer llety dros nos.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r cynnig hwn gan gangen PCS Plaid Cymru, Jane Dodds AS a grŵp Plaid Cymru, a oedd yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol a roddir i Aelodau. Ysgrifennodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:

> *'Ar yr adeg hon yn nhymor y Senedd, cymharol ychydig o gyfleoedd sydd ar gael i nodi'r defnydd posibl o lety â gwasanaeth, er ei fod wedi'i drafod gydag un Aelod yn ddiweddar'.*

**Canlyniad**

Bydd y Penderfyniad yn cynnwys cyfeiriad at 'lety â gwasanaeth' er mwyn nodi'n glir ei fod yn opsiwn pan fydd angen i Aelodau drefnu llety dros nos.

## Cynnig 7

***Cynyddu'r uchafswm nosweithiol y gellir ei hawlio am lety dros nos (gwesty neu lety â gwasanaeth) yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill (heb gynnwys brecwast a pharcio) yn ôl y ffigur CPI ar gyfer Ionawr 2025 a chynyddu'r uchafswm nosweithiol yn Llundain (heb gynnwys brecwast a pharcio) i £210.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Croesawyd y cynnig hwn gan grŵp Plaid Cymru, PCS Plaid Cymru a Jane Dodds AS, a ddywedodd fod y swm presennol yn ddigonol. Mewn ymateb gan aelod o'r cyhoedd, nodwyd y dylid cysoni'r ddwy gyfradd i £150 y noson neu hyd at £200 mewn amgylchiadau eithriadol os gellir rhoi tystiolaeth nad oes dewis rhatach ar gael.

Ymatebodd grŵp y Ceidwadwyr Cymreig:

> *'MSs are likely to continue to face challenges when seeking to secure overnight accommodation outside of London below the proposed £117, particularly in locations*

*where accommodation is limited and in high demand due to events or seasonal pressures. We encourage the Board to consider increasing the overnight allowance to make it more consistent to that available to Members of the Scottish Parliament.'*

Ystyriodd y Bwrdd yr ymatebion a'r dystiolaeth o ran llety dros nos sydd ar gael yng Nghaerdydd o fewn y terfyn hwn. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y bu adegau o alw uchel, gan arwain at brisiau uchel am westai yng Nghaerdydd pan roedd digwyddiadau mawr yn y ddinas.

**Canlyniad**

Yr uchafswm nosweithiol y gellir hawlio am lety dros nos (gwesty neu lety â gwasanaeth) yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill (heb gynnwys brecwast a pharcio) fydd £117 yn 2025-26 a'r uchafswm nosweithiol y gellir ei hawlio ar gyfer llety dros nos yn Llundain (heb gynnwys brecwast a pharcio) yn 2025-26 fydd £210.

## Cynnig 8

***Darparu cyllideb llety dros nos o £684 y flwyddyn i Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr ardal fewnol (wedi'i uwchraddio yn ôl cyfradd CPI Ionawr 2025) am lety dros nos yn ardal Caerdydd.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Ymatebodd grŵp Plaid Cymru a grŵp y Ceidwadwyr Cymreig i'r cynnig hwn. Croesawodd grŵp Plaid Cymru y cynnig ond dywedodd:

*'... six nights allowance may not be enough for some Members and would welcome any further work to examine how to meet that need if and when it arises.'*

Yn yr un modd, ymatebodd y Ceidwadwyr Cymreig:

*'We regard the proposed overnight accommodation budget for Members living in the inner area to be insufficient. The proposal would enable just six overnight stays per annum with further nights only available in exceptional circumstances via approval by the Members' Business Support Team, this is to enable Members living in the inner area to engage to the same extent as their peers with late sittings, cross-party groups, and Senedd events. We would therefore encourage the Board to consider lifting this*

> *cap to enable Members to claim as required. All claims are subject to public scrutiny via the publication of expense claims and will therefore need to be justified by those who make them.'*

Mae'r Bwrdd wedi nodi'r sylwadau a wnaed, ond mae'n bwriadu cynnwys y ffigur hwn i dreialu faint y caiff ei ddefnyddio a pha mor ddigonol ydyw, gan nodi bod hyblygrwydd i Aelodau hawlio mwy na chwe noson o lety yn dibynnu ar y prisiau gwesty y gallant eu sicrhau.

Bydd y Bwrdd yn monitro'r defnydd o'r ddarpariaeth hon i fesur y galw am lety dros nos a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaethau llety dros nos ar gyfer Aelodau'r ardal fewnol yn y Seithfed Senedd.

Cyfradd CPI mis Ionawr oedd 3%, felly y gyllideb llety dros nos ar gyfer 2025-26 fydd £702.

**Canlyniad**

Bydd Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr ardal fewnol yn cael hawlio hyd at £702 y flwyddyn am lety dros nos yn ardal Caerdydd.

## Cynnig 9

***Cynyddu'r swm blynyddol, ym mharagraff 4.4.3.(a) y caniateir ei hawlio am lety dros nos i Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr ardal allanol o 9.8%, sef ffigur mis Hydref ar gyfer Mynegai Prisiau Rhenti Tai Preifat y Swyddfa Ystadegau Gwladol, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Croesawodd grŵp Plaid Cymru y cynnig a galwodd am adolygiad o gostau rhentu i Aelodau, gan gynnwys adolygu pryd y cafodd rhent Aelodau ei gynyddu ddiwethaf a beth oedd y swm, fel ffordd o sganio'r gorwel i ragweld a fydd y cynnydd arfaethedig yn ddigonol ac i'r Bwrdd weithredu yn unol â hynny.

**Canlyniad**

Bydd y swm blynyddol y gellir ei hawlio am lety dros nos ar gyfer Aelodau y mae eu prif breswylfa yn yr ardal allanol yn cael ei gynyddu i £12,900.

## Cynnig 10

***Cynyddu'r swm ym mharagraff 4.4.3(h) sydd ar gael i Aelodau yn yr ardal allanol ei hawlio mewn perthynas â chyfrifoldebau gofalu o 9.8%, sef ffigur mis Hydref ar gyfer Mynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar brisiau rhentu preifat, wedi'i dalgrynnu i'r £5 agosaf y mis.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn.

**Canlyniad**

O ran Aelodau sydd â phrif breswylfa yn yr ardal allanol sy'n gallu dangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw, byddant yn cael hawlio swm ychwanegol o £1,905 y flwyddyn.

## Cynnig 11

***Cynyddu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol, ym mharagraff 8.2.1(a), yn ôl ffigur ASHE Cymru o 6%, wedi'i dalgrynnu i'r £10 agosaf.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Croesawodd grŵp Plaid Cymru y cynnig ond dywedodd fod angen mwy o arian i ddenu staff medrus. Ysgrifennodd:

> *'the current budget allocated to groups does not fully meet the business need, especially for groups in opposition, and this should be looked into in detail as part of the review into the Senedd Determination for the 7th Senedd.'*

**Canlyniad**

Caiff y lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ei gynyddu 6% i £1,235,040.

## Cynnig 12

***Symleiddio'r darpariaethau hawlogaeth dileu swydd fel y'u nodir yn adran 8.9 o'r Penderfyniad a darparu hawlogaeth dileu swydd statudol wedi'i huwchraddio 100% i'r holl staff cymorth cymwys a gyflogir gan Blaid Wleidyddol (drwy'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol).***

### Crynodeb o'r ymatebion

Croesawyd y cynnig hwn gan grŵp Plaid Cymru, grŵp Llafur Cymru, Jane Dodds AS, undeb Unite a changen PCS Plaid Cymru. Ategodd cangen PCS Plaid Cymru ei sylwadau nad yw'r gefnogaeth arfaethedig yn mynd yn ddigon pell. Mae sylwadau'r Prif Weithredwr ar gynnig 5 hefyd yn berthnasol i'r cynnig hwn.

**Canlyniad**

Bydd y darpariaethau hawlogaeth dileu swydd ar gyfer yr holl staff cymwys a gyflogir gan Blaid Wleidyddol (drwy'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol) yn cael eu huwchraddio 100%.

## Cynnig 13

***Cyflwyno'r hawl i Aelodau presennol gael taliadau dirwyn swyddfa i ben ar ddiwedd tymor y Senedd hon, fel a ganlyn:***

***- Taliad dirwyn i ben, sy'n cyfateb i ddau fis o gyflog, yn daladwy i Aelodau nad ydynt yn sefyll i'w hailethol;***

***- Taliad dirwyn i ben, sy'n cyfateb i dri mis o gyflog, yn daladwy i Aelodau sy'n ymgeiswyr i'w hailethol ond nad ydynt yn cael eu hailethol.***

### Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar gynigion y Bwrdd ynghylch dirwyn trefniadau i ben, a hynny gan Aelodau, grwpiau a'r Prif Weithredwr.

Dywedodd Lee Waters AS, Mick Antoniw AS a James Evans AS eu bod yn teimlo bod y cynnig ar gyfer Aelodau sy'n ymddiswyddo yn annigonol ac yn anghyson, gan alw naill ai am gysondeb â'r cynnig ar gyfer Aelodau sy'n sefyll etholiad ac sy'n aflwyddiannus (cyfwerth â thri mis o gyflog), Senedd y DU (pedwar mis) neu chwe mis yn unol â grantiau adsefydlu Aelodau.

Roedd ymateb grŵp Llafur Cymru yn croesawu'r cynnig mewn egwyddor ond tynnodd sylw at nifer o bryderon neu broblemau, gan gynnwys y potensial i'r taliadau gwahanol olygu bod Aelodau'n dewis sefyll er mwyn cael taliad uwch. Roedd ymateb grŵp Llafur Cymru hefyd yn ystyried hyd y cyfnod dirwyn i ben, gan nodi y bydd gan rai Aelodau ymrwymiadau dirwyn i ben sylweddol gan gynnwys:

> *'Ministers and additional office holders, who remain in post during the dissolution period and have additional commitments as a result'* and some Members *'…may make the decision not to seek re-election at a very late stage of this Senedd, even within weeks of the dissolution period, due to unforeseen circumstances. As a result they would have less time to plan their winding-up arrangements in advance.'*

Nododd grŵp Llafur Cymru hefyd y gall gymryd mwy na thri mis i drefnu dirwyn trefniadau i ben. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos Aelodau sydd wedi gwasanaethu'n hirach sydd â llawer iawn o waith achos hanesyddol o bosibl, sy'n aml yn gymhleth, ac ymrwymiadau eraill i'w dirwyn i ben.

Croesawodd grŵp Plaid Cymru y taliadau dirwyn i ben arfaethedig a chefnogodd y ddarpariaeth wahanol ar gyfer Aelodau sy’n rhoi’r gorau i’w sedd neu’n sefyll ond ddim yn cael eu hailethol.

Roedd y Prif Weithredwr am gael egurhad ynghylch nifer o bwyntiau yn ymwneud â’r broses ar gyfer y cyfnod dirwyn i ben, gan gynnwys cadarnhad bod hyd y cynllun dirwyn i ben, sef uchafswm o dri mis, yn gysylltiedig â’r cyfnod rhybudd hwyaf ar gyfer staff (a allai fod wedi bod yn eu swyddi ers dros 12 mlynedd), a bod y canllawiau ar ddiddymu’r Senedd, a gyhoeddwyd yn yr hydref, yn cynghori pob Aelod i sicrhau, yn ysgrifenedig cyn y diddymiad, bod eu holl staff yn ymwybodol bod o leiaf risg o gael eu diswyddo.

Nododd y Prif Weithredwr hefyd fod y Bwrdd, yn y cyfnod cyn etholiadau blaenorol, wedi annog yr Aelodau hynny nad oeddent yn ymgeisio i gael eu hailethol i ddirwyn eu trefniadau i ben o fewn chwe wythnos i’r diddymiad. Unwaith y bydd y diddymiad yn digwydd, nid oes angen rolau arferol y rhan fwyaf o staff cymorth mwyach gan nad oes gan y cyn-Aelod hawl i ymgymryd â dyletswyddau Aelod o'r Senedd bellach.

Ystyriodd y Bwrdd y dadleuon bod y ddarpariaeth arfaethedig i Aelodau sy'n rhoi’r gorau i’w seddi yn annigonol neu y gallai, yn groes i’r bwriad,  gymell Aelodau i barhau yn eu swyddi. Nododd y Bwrdd fodd bynnag nad oes darpariaeth ariannol o'r fath ar gael ar hyn o bryd ac, ar yr adeg y bu'r Bwrdd yn ystyried adborth o'r ymgynghoriad, roedd 13 o Aelodau eisoes wedi cyhoeddi eu bwriad i roi'r gorau i’w seddi.

Mae’r Bwrdd wedi ystyried yr adborth ar y cyfnod priodol o amser ar gyfer dirwyn i ben, gan nodi, er bod grŵp Llafur Cymru yn awgrymu y gall gymryd mwy o amser a bod Aelodau Seneddol y DU yn cael taliad dirwyn i ben sy’n cyfateb i gyflog pedwar mis (a gynyddwyd o ddau fis yn 2023), fod profiadau blaenorol yn awgrymu bod cyfnod o chwe wythnos yn opsiwn ymarferol.

Cadarnhaodd y Bwrdd hefyd, er eu bod yn cael eu galw’n ‘daliadau dirwyn i ben’, bod y cynnig yn ceisio mynd i’r afael â dau fwriad polisi, fel yr amlinellwyd yn ymgynghoriad yr adolygiad blynyddol, sef:

> '*Darparu diogelwch ariannol i'r rhai sy'n gadael eu swydd, naill ai oherwydd eu bod wedi colli mewn etholiad neu wedi penderfynu rhoi'r gorau iddi;*
>
> *Darparu taliad yn ystod cyfnod dirwyn i ben, lle mae'n ofynnol i Aelodau sy'n gadael gau eu swyddfeydd, cwblhau gwaith achos a rheoli diswyddiadau staff*'.

Wrth bwyso a mesur ei amcanion polisi gwreiddiol a’r dystiolaeth a’r safbwyntiau a ddaeth i law, mae’r Bwrdd wedi penderfynu gweithredu ei gynigion gwreiddiol ar gyfer diwedd tymor y Senedd hon a bydd yn gweithio gyda Chomisiwn y Senedd wrth benderfynu sut i weinyddu ac amseru taliadau o’r fath.

**Canlyniad**

Bydd y Penderfyniad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer taliad dirwyn i ben, sy’n gyfwerth â dau fis o gyflog, sy’n daladwy i Aelodau nad ydynt yn ymgeisio i gael eu hailethol a thaliad dirwyn i ben, sy’n cyfateb i dri mis o gyflog, sy’n daladwy i Aelodau sy’n ymgeisio i gael eu hailethol ond na chânt eu hethol.

## Newidiadau ychwanegol i'r Penderfyniad ar gyfer 2025-26: cyngor ariannol annibynnol i Aelodau y mae rhwymedi McCloud i gynllun pensiwn yr Aelodau yn effeithio arnynt

Cytunodd y Bwrdd ym mis Chwefror, o ran Aelodau a chyn-Aelodau y mae rhwymedi McCloud i gynllun pensiwn yr Aelodau yn effeithio arnynt, y byddent yn gallu hawlio hyd at £250 am gyngor ariannol annibynnol. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad yr adolygiad blynyddol.

**Canlyniad**

Bydd yr Aelodau yr effeithir arnynt yn cael gwybod am y cymorth hwn drwy ohebiaeth gan y Bwrdd Pensiynau erbyn diwedd mis Mawrth, fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd y byddai paragraff 3.5.2 newydd yn cael ei gynnwys yn yr is-adran o’r Penderfyniad sy’n trafod ‘Pensiynau’ i nodi bod cymorth o’r fath ar gael drwy’r Penderfyniad.

## Newidiadau ychwanegol i’r Penderfyniad ar gyfer 2025-26: dileu’r gofyniad am dri dyfynbris pan fo Aelod yn trefnu gwasanaethau drwy gontract gan y Comisiwn

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i Aelodau geisio tri dyfynbris ysgrifenedig pan fo’n prynu eitemau neu’n trefnu gwasanaethau sy’n werth dros £1,500 (paragraff 2.3.3).

Awgrymodd y Prif Weithredwr, yn ei hymateb i ymgynghoriad yr adolygiad blynyddol, efallai yr hoffai'r Bwrdd ystyried datgymhwyso'r gofyniad hwn pe bai Aelodau'n cael gafael ar rai o'u gwasanaethau drwy gontractau'r Comisiwn, a fyddai eisoes wedi bod drwy'r broses gaffael lawn. Ni fyddai hyn yn cyfyngu ar allu Aelodau i gaffael yn lleol pe bai'n well ganddynt wneud hynny, ond gallai leihau'r baich gweinyddol pe bai Aelodau am ddefnyddio gwasanaethau neu gyflenwyr (e.e. dodrefn swyddfa neu offer diogelwch neu gyflenwyr) sydd eisoes yn cyflenwi ar gyfer Comisiwn y Senedd.

**Canlyniad**

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno'r hyblygrwydd hwn drwy fewnosod paragraff 2.3.3A ychwanegol yn y Penderfyniad i ddatgymhwyso'r gofyniad am dri dyfynbris wrth gael gafael ar wasanaethau a ddarperir drwy gyflenwyr a gaiff eu contractio gan Gomisiwn y Senedd.

## Atodiad A: Ymatebwyr

| |
|---|
| Joe Chesterman |
| Lee Jones |
| Linda Poole |
| Dienw |
| Phil Burton |
| Allan Evans |
| Robert Watkins |
| Phillip Cook |
| Lee Waters AS |
| Neil Boardman |
| Debbie a Paul Whiting |
| Gloria Tobijanski |
| Mick Antoniw AS |
| James Evans AS |
| Kenneth Jones |
| Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru |
| Grŵp Llafur Cymru |
| Cangen Staff Cymorth Undeb Unite |
| Cangen Plaid Cymru Undeb PCS |
| Manon Antoniazzi, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr a Chlerc y Senedd |
| Ceidwadwyr Cymreig |
| Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd |

Elin Jones AS, y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

## Atodiad B: Tabl Costau Busnes a Staffio 2025-26

| Paragraff | Cyllideb/Cost | Uchafswm cyllideb neu uchafswm costau y gellir eu hawlio |
|---|---|---|
| Newydd 1.5.2 | Cost cyngor ariannol annibynnol ar gyfer rhwymedi pensiynau McCloud. | £250 |
| 3A.3.2 | Costau gofal plant/gofal oedolyn dibynnol | £350 |
| Newydd 4.2.A1 | RAE - Llety dros nos yng Nghaerdydd (AS ardal fewnol) | £702 |
| 4.3.1 | RAE - Llety dros nos yng Nghaerdydd (AS ardal ganolraddol) | £8,424 |
| 4.4.3 | RAE – Rhent Opsiwn A (AS Ardal Allanol) | Uchafswm o £12,900 |
| 4.4.3 h | RAE – Hawliad ychwanegol Opsiwn A ar gyfer cyfrifoldebau gofalu | £1,905<br>y flwyddyn |
| 4.4.8 | RAE – Opsiwn C | Uchafswm o £12,900 |
| 4.4.10(a) | RAE – Rhent/morgais Opsiwn D | Ddim yn berthnasol |
| 4.4.10 | RAE – Atgyweiriadau hanfodol Opsiwn D | £882 |
| 4.5.5 | RAE - Llety dros nos (Llundain) | £210 |
| 4.5.5 | RAE – Llety dros nos (rhywle arall) | £117 |
| 4.5.7 | RAE – Ad-dalu costau pryd nos | £20 |
| 5.5 | Cyfraddau fesul milltir | Cyfraddau milltiredd a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau EF |
| 6.1.2 | OCLF – Aelod â swyddfa etholaeth | £27,430 |
| 6.1.2 | OCLF – Aelod heb swyddfa etholaeth | £11,205 |
| 7.1.1. | Cymorth staffio | £138,438 |
| 8.2.1 (a) | Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol - Cyfanswm | £1,235,040 |

## Cyflogau Aelodau 2025-26

Mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu cyflogau arfaethedig Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ar gyfer 2025-26.

| Rôl | | Cyflog |
|---|---|---|
| Aelod o'r Senedd | | £76,380 |
| **Deiliaid Swyddi Ychwanegol** | **Cyflog ychwanegol** | **Cyfanswm cyflog** |
| Y Prif Weinidog | £90,701 | £167,081 |
| Gweinidog Cymru | £42,963 | £119,343 |
| Y Cwnsler Cyffredinol | £42,963 | £119,343 |
| Dirprwy Weinidogion | £25,063 | £101,443 |
| Llywydd | £48,930 | £125,310 |
| Y Dirprwy Lywydd | £25,063 | £101,443 |
| Comisiynwyr y Senedd | £15,514 | £91,894 |
| Cadeirydd Pwyllgor (uwch) | £15,514 | £91,894 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (is) | £10,336 | £86,716 |
| Aelodau'r Pwyllgor Busnes | £10,336 | £86,716 |
| Arweinydd Grŵp Gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth | £15,514 + £1,194 yr Aelod hyd at uchafswm o £42,963 | Hyd at uchafswm o £119,343 |

# Cyflogau Staff

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r cyflogau arfaethedig ar gyfer staff cymorth Aelodau a staff grŵp ar gyfer 2025-26:

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pennaeth Staff** | £47,557 | £49,960 | £52,488 | £55,143 | £57,941 |
| **Uwch-gynghorwr** | £43,296 | £45,478 | £47,778 | £50,190 | £52,737 |
| **Band 1** | £32,351 | £35,187 | £38,290 | £41,677 | £45,380 |
| **Band 2** | £27,722 | £30,426 | £33,411 | £36,219 | £40,321 |
| **Band 3** | £25,167 | £27,064 | £29,110 | £31,319 | £33,706 |